# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cyngor

**Dyddiad y cyfarfod:** **1 Mawrth 2018**

**Adroddiad gan:** **Y Cynghorydd Mair Rowlands**

**Swyddog Cyswllt** **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr**

**Teitl yr Eitem:** **Arolwg o drefniadau etholiadol Cyngor Gwynedd.**

**Cefndir**

1. Bydd holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol fod y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol wedi cyhoeddi eu cynigion drafft ar gyfer yr arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

2. Mae gofyn i ni ymateb erbyn 23 Ebrll 2018.

3. Bu'r Cyngor yn trafod hyn ddiwethaf ym mis Mehefin 2017 pan fu i ni ystyried canllawiau'r Comisiwn a chyflwyno cynigion ar gyfer yr hyn yr oedd y Cyngor yn ystyried dylai ddigwydd.

4. Gellir gweld y cynigion a roddwyd ymlaen drwy ddilyn y linc isod.

   https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s12563/Adolygiad%20o%20Ffiniau%20Etholaethol%20Gwynedd.pdf?LLL=1

**Y Cynigion**

5. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 71 ward etholiadol gyda 4 ohonynt yn ethol dau aelod sy'n golygu Cyngor o 75 aelod. Ar gyfartaledd golyga hynny 1 aelod i bob 1,111 o etholwyr. Mae 12 ward o fewn 10% i'r cyfartaledd yma; 29 pellach o fewn 25% i'r cyfartaledd; 4 pellach o fewn 30% neu lai i'r cyfartaledd a 26 yn fwy na 30% dros y cyfartaledd sirol.

6. Ar ol ystyried canllawiau'r Comisiwn, ym mis Mehefin fe luniodd y Cyngor gynigion oedd yn cynnig 66 ward etholiadol gyda dwy ohonynt yn ethol dau aelod gan wneud Cyngor o 68 aelod.

7. Fel egwyddor sylfaenol, nododd y Cyngor bryd hynny ein bod yn erbyn wardiau etholiadol dau aelod gan nad yw'n gyson gyda'r egwyddor sylfaenol sydd gan y Comisiwn o sicrhau fod gan bob cynghorydd

gymhareb etholiadol gyfartal nac ychwaith yr amcan o sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, fel sy'n ofynnol iddynt dalu sylw iddo.

8. Yn y ddwy ward lle bu i ni gynnig dau aelod, 'roedd hynny yn bennaf oherwydd mewnlif sylweddol myfyrwyr mewn un achos a natur ddifreintiedig yr ardal yn y llall.

9. 'Roedd cynigion y Cyngor yn golygu cyfartaledd o 1 aelod i bob 1,226 o etholwyr. Roedd 23 ward o fewn 10% i'r cyfartaledd; 24 pellach o fewn 25% i'r cyfartaledd; a 9 pellach o fewn 30% neu lai i'r cyfartaledd. 'Roedd ein cynigion yn golygu fod yna 10 ward uwchben 30% o'r cyfartaledd sirol.

10. Bellach, mae cynigion drafft y Comisiwn wedi cyhoeddi cynigion sy'n creu l 64 ward etholiadol gyda 3 ohonynt yn ethol 2 aelod ac un ohonynt yn ethol 3 aelod, gan greu Cyngor o 69 aelod.

11. Golyga hyn gyfartaledd sirol o 1 aelod i 1,208 o etholwyr gyda 25 ward o fewn 10% i'r cyfartaledd; 33 ward pellach o fewn 25% a 6 ward pellach o fewn 30% neu lai, gyda dim ond un ward uwchben 30% o'r cyfartaledd sirol.

12. Mae'n amlwg o hyn mai'r "cyfartaledd sirol " sy'n bennaf gyrru meddylfryd y Comisiwn.

13. Wedi dweud hynny, o'r cynigion ar gyfer y 66 ward a roddwyd ymlaen gan y Cyngor, mae'r Comisiwn wedi ymgorffori 43 ohonynt yn eu cynigion gyda chytundeb o ran y ffin mewn 2 pellach, ond anghytundeb o ran nifer aelodau ar gyfer y wardiau hynny.

**Ymateb i'r cynigion drafft**

14. Mae ymateb i'r cynigion drafft yn fater syml ar un ystyr.

15. Mae'r Cyngor eisoes wedi nodi beth fyddai ei ddymuniad yn ei benderfyniad ym mis Mehefin a'r cyfan sydd angen i ni ei wneud yw derbyn y 43 cynnig lle mae'r Comisiwn yn cytuno a ni a cheisio eu perswadio i ymgorffori ein cynigion ni ac nid rhai nhw yn y 21 etholaeth arall sydd ganddynt.

16. Mae'r ddadl o ran peidio cael etholaethau aml aelod yn un eithaf cryf yn fy marn i a gellir atgyfnerthu ein gwrthwynebiadau i'r sefyllfaoedd yma.

17. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y byddant yn derbyn ein dadl dros beidio â chael wardiau etholiadol aml aelod

18. Mae yna wardiau hefyd lle 'roedd ein cynigion gwreiddiol yn golygu fod yna wahaniaethau o 48% a 49% o'r cyfartaledd sirol mewn rhai mannau ac nid yw hynny yn debygol o fod yn dderbyniol i'r Comisiwn.

19. Yn wir, oni bai fod ein dadleuon yn gryf dros ben dwi'n amau y byddwn yn cael trafferth i newid eu meddyliau am unrhyw beth sydd dros 30% o'r cyfartaledd sirol.

20. Awgrymaf felly y gallasai fod yna leoedd lle, tra byddem yn parhau i fod eisiau nodi fod ein cynigion ni yn well ac y dylid eu mabwysiadu, y byddai aelodau lleol yn ystyried y dylid argymell ail ddewis er mwyn cael rhywbeth mwy addas na'r hyn sy'n cael ei awgrymu gan y Comisiwn.

21. Gan fod angen ymateb erbyn 23 Ebrill bydd angen i'r Cabinet glirio'r ymateb hwnnw ar sail cyfarwyddyd a roddir gan y Cyngor.

22. **Argymhellaf** felly fod y Cyngor yn cytuno i ymateb drwy ail ddatgan cynigion y Cyngor a phwyso'r Comisiwn i dderbyn yr hyn oedd yn ein cynigion gwreiddiol, ond gan awdurdodi'r Prif Weithredwr i gynnal trafodaethau gydag aelodau lleol yn y lleoedd hynny lle mae'r aelodau lleol yn ystyried y byddai'n ddarbodus cynnig dewis amgen, ac awdurdodi'r Cabinet i gynnwys y dewis amgen hwnnw yn yr ymateb ffurfiol os yw'r holl aelodau lleol yn unfrydol yn eu barn.

23. Mae'r cynigion gan y Comisiwn hefyd yn awgrymu enwau ar gyfer wardiau etholiadol gyda rhai ohonynt yn awgrymu enwau na ddefnyddir yn lleol. A**rgymhellaf** ymhellach felly fod y Cyngor yn awdurdodi'r Cabinet i wneud awgrymiadau gwahanol i'r hyn sydd yng nghynigion y Comisiwn os oes dymuniad lleol i wneud hynny.